



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canolfan Rhagoriaeth Grantiau

Safonau Gofynnol ar gyfer Cyllid Grant

2016

Cyflwyniad

Mae'r Safonau hyn yn adlewyrchu dull gweithredu'r Llywodraeth o ran darparu gwasanaethau grant drwy bennu'r gofynion sylfaenol y dylid eu cyflawni ar gyfer gwahanol ddulliau cyllido a chynlluniau grant. Fe'u datblygwyd gan y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau.

Bydd glynu at y Safonau yn cynorthwyo i gynhyrchu gwasanaethau grant o ansawdd, sy'n addas i'r pwrpas, yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau, yn atebol i'r pwrs cyhoeddus ac yn cydymffurfio â gofynion ariannol a llywodraethu Llywodraeth Cymru, ynghyd â deddfwriaeth, polisi ac arferion da perthnasol.

Gweithredu'r Safonau

Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o grant fel a ganlyn:

'pob taliad nad yw'n mynd drwy broses gaffael a roddir i sefydliadau neu unigolion allanol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei amcanion polisi a'i rwymedigaethau statudol'.

Mae'r diffiniad lefel uchel hwn yn darparu ar gyfer y gwahanol daliadau o fewn Llywodraeth Cymru sy'n cael eu hystyried yn 'grant'. Bydd i ba raddau y gellir gweithredu'r safonau sylfaenol yn ymarferol yn dibynnu ar ystod o ffactorau, a'r pwysicaf ohonynt yw pa ddull o ddyrannu arian grant a ddefnyddir. Efallai y bydd rhesymau digonol eraill pam, ar adegau, na fydd yn bosibl neu'n fuddiol i gynllun cyllido gydymffurfio â'r Safonau.

Yn y pen draw, mater lleol yw'r penderfyniadau ynghylch rheoli a gweinyddu cynllun grant. Fodd bynnag, rhaid i Adrannau roi sylw dyladwy i'r Safonau wrth wneud penderfyniadau, a rhaid i'r rhesymeg drostynt fod wedi'i chofnodi'r glir.

Defnyddio'r Safonau

Rhaid cyfeirio at y set briodol o safonau wrth ddatblygu cynllun grant neu adolygu cynllun sy'n bodoli eisoes, er mwyn sicrhau fod y prosesau yn cydymffurfio â gofynion corfforaethol.

Ceir 7 prif Safon. Mae Safon 1 yn disgrifio egwyddorion cyffredinol a'r mecanweithiau allweddol o ran darparu grantiau sy'n berthnasol yn gyffredinol, ac mae Safonau 2 - 7 yn nodi'r Safonau y mae angen eu cyflawni ar gyfer gwahanol gamau yn y cylch grant h.y.:

1. Gofynion Cyffredinol (yn berthnasol i bob Safon)
2. Penderfyniadau i ddyfarnu Cyllid Grant
3. Ceisiadau
4. Gwerthusiadau, Argymhellion a Phenderfyniadau
5. Dyfarnu Grantiau
6. Monitro, Hawliadau a Thaliadau
7. Gwerthuso

Gellir cael canllawiau manwl i gynorthwyo i roi'r Safonau ar waith drwy ddalennau Grantiau ar y fewnwyd.

Hyrwyddo Cydymffurfio â'r Safonau

Y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau sy'n gyfrifol am gynnal a hyrwyddo'r Safonau sy'n cael eu cefnogi gan arweiniad manwl ar gyfer gweithredu. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant ar grantiau ac yn darparu ystod o gefnogaeth a chynngor drwy gyfrwng, er enghraifft, ei gwasanaeth ymholiadau a'i chymuned ymarfer.

Asesu Cydymffurfio â'r Safonau

Caiff Cydymffurfiaeth â'r Safonau ei asesu gan y canlynol:

- **Y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau** drwy raglen o hapwiriadau ar elfennau o gynlluniau grant sy'n galw am dystiolaeth o gymhwysu'r Safonau'n ymarferol.
- **Gwasanaethau Archwilio Mewnol** drwy asesiadau manwl wedi'u cynllunio o arferion grant lleol gan gynnwys archwilio cydymffurfiaeth â'r Safonau.

SAFON UN - GOFYNION CYFFREDINOL

Rhaid i brosesau grant gael eu hasesu yn erbyn y Safonau i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac yn cael eu rheoli a'u gweinyddu gan staff a hyfforddwyd yn briodol gan ddefnyddio dulliau cyflwyno priodol.

1.1	Defnyddio'r Safonau	Rhaid ystyried y Safonau wrth sefydlu cynlluniau grant newydd neu adolygu rhai presennol i sicrhau fod prosesau yn cyflawni gofynion corfforaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweinyddu cyllid grant.
1.2	Addas i'r pwrpas	<p>Cydymffurfio – rhaid i brosesau grant lynu at y Safonau hyn a'r elfennau perthnasol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ y gyfraith (e.e. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr Iaith Gymraeg, Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth, Cydraddoldeb Cyfle, Hawliau Dynol, Hawliau'r Plentyn ayb.) ▪ llywodraethu corfforaethol, cyllid a pholisïau eraill (e.e. Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector) ▪ cyfarwyddyd fel bo'n briodol (e.e. Gan y Ganolfan Rhagoriaeth) ac ▪ ymarfer da. <p>Cymesur - rhaid i brosesau fod yn gymesur o ran graddfa, gwerth a risg y cynlluniau grant y maent yn berthnasol iddynt.</p> <p>Priodol - rhaid i brosesau grant fod yn addas ar gyfer y cynllun grant a'r dull ariannu.</p> <p>Cyson - rhaid i brosesau grant gael eu cymhwyso'n gyson drwy ddilyn gweithdrefnau a chanllawiau perthnasol. Rhaid cael digon o hyblygrwydd, fodd bynnag, i allu ymateb yn effeithlon i newid, risgiau a materion a nodir a pherfformiad gwael.</p>
1.3	Dulliau cyflwyno	<p>Dylid mabwysiadu dull yn canolbwyntio ar ganlyniadau lle bo'n bosibl. Mae Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau yn ddull a ddefnyddir i'r pwrpas hwn gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Rhaid asesu risg gydol bywyd cynllun grant ond yn benodol ar y camau gwerthuso a monitro lle bo'n briodol.</p> <p>Rhaid ymgymryd â diwydrwydd dyladwy yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd i sicrhau y dyfernir grant i gyrrff sy'n ariannol hyfyw ac yr aseswyd bod modd iddynt gyflawni gweithgareddau grant llwyddiannus, ac i ddibenion rhannu gwybodaeth gorfforaethol.</p> <p>Nid oes angen adolygiadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer cyrrff y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid gwirio/ychwanegu gwybodaeth at yr "Hwb Diwydrwydd Dyladwy" ar gyfer y cyrrff hyn lle bo'n briodol.</p> <p>Rhaid i'r system TG grantiau PayGrants gael ei sefydlu a'i defnyddio yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd i sicrhau y caiff data ei fewnbynnu'n gywir ac yn brydlon i gefnogi gallu Llywodraeth Cymru i adrodd ac i gyfyngu ar yr angen am fonitro ychwanegol.</p> <p>Dylid gweld fod dyletswyddau yn cael eu rhannu rhwng swyddogion i leihau i'r eithaf y risg o gydgyllwynio a thwyll. Mae hyn yn arbennig o bwysig rhwng swyddogion sy'n gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ymdrin ag ymgeiswyr/ceisiadau ac yn eu gwerthuso ▪ gwerthuso ceisiadau grant a phenderfynu arnynt ▪ gwirio hawliadau am daliadau a'u cymeradwyo <p>Lle nad yw adnoddau'n caniatáu gwir wahanu ar ddyletswyddau, dylid defnyddio synnwyr cyffredin, asesu risg a chymryd camau lliniaru.</p> <p>Yn y mwyafrif o achosion, does dim hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt grantiau. Dylai gweithdrefnau fod yn eu lle i adlewyrchu hyn ac i ddarparu arweiniad ar sut y dylid ymdrin â phenderfyniadau cyllido sy'n cael eu herio gan gyrrff allanol.</p> <p>Rhaid datblygu cyfarwyddiadau desg ar gymhwyso prosesau grant i gefnogi cysondeb a pharhad busnes, Y prif brosesau ar gyfer grantiau yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ceisiadau ▪ gwerthusiadau, argymhellion a phenderfyniadau ▪ dyfarniadau grant ▪ monitro, hawliadau a thaliadau ▪ sefydlu a defnyddio PayGrants ▪ gwerthusiadau <p>Dylai cyfarwyddiadau desg fod yn hawdd eu dilyn, eu hansawdd wedi'i sicrhau a dylent ddangos gwybodaeth rheoli fersiwn.</p>

		<p>Dylai dogfennaeth grantiau e.e. Deunyddiau cyhoeddusrwydd, ffurflenni cais, cytundebau cyllido, ffurflenni hawlio ayb. gydymffurfio â gofynion cyfathrebu corfforaethol.</p> <p>Dylid defnyddio ffurflenni a thempledi safonol lle bynnag y bo'n bosibl i hyrwyddo cysondeb ac effeithlonrwydd gweithredol.</p> <p>Monitro mewnol - dylid cynnal cyfarfodydd rheolaidd a threfniadau mewnol eraill o ran monitro/rhannu gwybodaeth. Dylid ymgymryd â gwiriadau ar hap i sicrhau fod prosesau grant yn cael eu cymhwyso'n foddhaol.</p>
1.3.1	<i>Adolygiadau o'r dulliau cyflwyno</i>	Rhaid cynnal adolygiadau priodol o ddulliau cyflwyno er mwyn cynnal eu heffeithlonrwydd a hyrwyddo cydymffurfiaeth. Dylid cynnal adolygiadau sylfaenol ar amseroedd a bennir ymlaen llaw i sicrhau fod y mecanweithiau'n parhau'n addas i'r pwrpas.
1.4	Hyfforddiant	<p>Dylid cefnogi staff i gyflwyno cynlluniau grant gan gydymffurfio ac yn effeithlon drwy hyfforddiant, cysgodi, cyfeirio at ganllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrosesau perthnasol ayb.</p> <p>Rhaid i staff ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ar grantiau gan eu hannog/rhoi amser iddynt wneud hyfforddiant dewisol.</p>
1.5	Rheoli cofnodion	<p>Rhaid dilyn gofynion yr Uned Rheoli Cofnodion o ran storio a chadw pob ffynhonnell data.</p> <p>Rhaid trosglwyddo a chadw data'n electronig lle bynnag y bo'n bosibl.</p> <p>Yn ogystal â recordio/storio dogfennau allweddol (ffurflenni cais, gwerthusiadau, argymhellion a chymeradwyaeth, trefniadau cyllido, hawliadau ayb.), rhaid cofnodi pob cysylltiad sylweddol â chyrrff allanol gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, nodiadau ymweliad safle ayb. I sicrhau y caiff trywydd archwilio cynhwysfawr ei sefydlu.</p>

SAFON DAU - PENDERFYNIADAU I DDYFARNU GRANT

Rhaid i benderfyniadau i sefydlu cynllun grant newydd gael eu gwneud yn briodol.

2.1	Cydymffurfio â Safon 1	Rhaid i bob cynllun grant gydymffurfio â Safon Un.
2.2	Pa fath o ymyriad?	<p>Cyn y gwneir penderfyniad i ddatblygu cynllun grant newydd, dylid cynnal archwiliad o'r gwahanol fathau o ymyriadau a fyddai orau o ran cyflawni amcanion polisi.</p> <p>Gan ddibynnu ar y mater sydd i dderbyn sylw, ei raddfa a'r risg, dylid dilyn proses gwneud penderfyniadau cydnabyddedig corfforaethol (e.e. Model Busnes Pum Achos) neu leol (e.e. defnyddio Dulliau Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau), er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ sefydlu nodau clir, amcanion SMART a'r canlyniadau a geisir ▪ Ymchwilio i weld a oes ymyriadau tebyg er mwyn osgoi dyblygu/ystyried cyfuno posibl neu wneud defnydd o'r gwersi a ddysgwyd ▪ sicrhau fod ymgynghori'n digwydd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol ▪ sicrhau y ceisir cyngor arbenigwyr fel bo angen ▪ sicrhau'r gymeradwyaeth angenrheidiol (swyddogion a/neu weinidogol).
2.3	Grant neu gaffael?	<p>Lle penderfynir fod galw am ymyriad sy'n gofyn am gefnogaeth ariannol, rhaid dilyn y dull mwyaf priodol o gyflawni hyn h.y. dull gweithredu seiliedig ar grant neu gaffael.</p> <p>Lle nad yw'n eglur pa dull y dylid ei ddilyn, ceisiwch gyngor gan y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau a/neu Gwerth Cymru.</p>
2.4	Gwerth am arian	<p>Rhaid i ystyriaethau gwerth am arian fod yn ganolog i bob penderfyniad yn ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru. Mae gwerth am arian yn golygu sicrhau'r lefel orau bosibl o ganlyniadau/allbynnau o ansawdd derbyniol am y gost isaf.</p> <p>Dylai peth data gwerth am arian fod ar gael o'r cyfnod ystyried cyn-cyllido (e.e. y potensial ar gyfer cyfuno cynlluniau grant). Gellir cyflawni mynegeion gwerth am arian drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ddadansoddiad llawn o gost/budd ▪ asesiad o'r gost o redeg y cynllun grant yn erbyn cyllideb flynyddol y cynllun grant.
2.5	Themâu trawsbynciol	<p>Rhaid i gynlluniau grant hyrwyddo themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ llesiant cenedlaethau'r dyfodol ▪ cydraddoldeb ac amrywiaeth ▪ Yr Iaith Gymraeg <p>ynghyd ag unrhyw themâu eraill perthnasol fel bo'n briodol.</p>
2.6	Risg	<p>Rhaid cynnal asesiad o'r risg o weithredu cynllun grant. Dyma rai meysydd risg safonol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Deddfwriaethol - a oes gan Lywodraeth Cymru'r grym i ddyrannu arian cyhoeddus i'r diben a fwriedir? ▪ Cymorth y wladwriaeth - a yw'r grant arfaethedig yn debygol o gael ei ystyried fel Cymorth y wladwriaeth? ▪ Ariannol - a yw'r cynllun grant yn arbennig o arloesol neu ddadleuol? ▪ Corff allanol - a yw'r math neu'r mathau o gyrrff sy'n cael eu cyllido yn golygu mwy o risg nac eraill? ▪ Enw da - a yw'r cynllun arfaethedig yn debygol o niweidio enw da Llywodraeth Cymru neu ei Gweinidogion?
2.7	Canlyniadau	Wrth ddatblygu cynlluniau grant, mae'n bwysig fod canlyniadau a fwriedir yn cael eu nodi'n gynnar yn y broses i helpu i daflu goleuni ar y mathau o ffyrdd i'w cyflawni. Gellir defnyddio egwyddorion Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau i'r diben hwn.
2.8	Cymeradwyo cynllun	Rhaid cael a chofnodi pob cymeradwyaeth angenrheidiol (swyddogol a/neu weinidogol).
2.9	Sefydlu cynlluniau	<p>Rhaid i gynlluniau grant gael eu sefydlu'n gywir ar PayGrants.</p> <p>Rhaid i gynlluniau grant sydd eisoes ar PayGrants gael eu defnyddio i'r dibenion a fwiadwyd yn unig ac nid ar gyfer cynlluniau eraill neu daliadau grant ad hoc.</p>

2.10	Gwerthuso	Oni fod rheoliadau'r UE neu reoliadau eraill yn nodi i'r gwrthwyneb, dylai cynlluniau grant gael eu gwerthuso'n ffurfiol bob 3 - 5 mlynedd. Dylid cynnal gwerthusiadau ar derfyn y cyfnod cyllido ar gyfer cynlluniau sy'n parhau am lai na 3 blynedd. Dylid cynllunio gwerthusiadau'n gynnar yn y broses o ddatblygu'r cynllun.
2.11	Cau cynlluniau	Rhaid i gynlluniau grant gael eu cau'n ffurfiol lle bo'n briodol. Rhaid rhoi gwybod i gyrrff a ariennir am y cau, gan roi rhybudd digonol (o leiaf 3 mis ar gyfer cyrff y Trydydd Sector). Rhaid i gynlluniau grant gael eu cau'n ffurfiol a'u harchifo ar PayGrants hefyd.

SAFON TRI - CEISIADAU

Rhaid i gyllid grant fod yn hygyrch, ei gyflwyno gan ddefnyddio mecanweithiau cymhwyso priodol a'i gefnogi gan ganllawiau ar gyfer cwblhau.

3.1	Cydymffurfio â Safon 1	Rhaid i bob cynllun grant gydymffurfio â Safon Un.
3.2	Hygyrch	<p>Dylid rhoi cyhoeddusrwydd perthnasol i'r ffaith fod grant ar gael e.e. ar wefannau, mewn deunyddiau hyrwyddo a drwy gysylltiad uniongyrchol â'r rhai y bwriedir iddynt ei dderbyn.</p> <p>Dylai gweithgareddau cyhoeddusrwydd fod yn amserol er mwyn rhoi amser digonol i gyrrff allanol baratoi/cyflwyno cynigion. Mae'n arfer safonol rhoi o leiaf 12 mis o rybudd lle bo cyrff y Trydydd Sector yn dderbynwyr posibl.</p> <p>Rhaid i ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, ffurflenni cais, canllawiau a dogfennau cysylltiedig fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ eglur ▪ rhesymegol ▪ mewn iaith syml ▪ ar gael mewn fformatau ac ieithoedd perthnasol i anghenion y gynulleidfa darged, a ▪ yn ddigon manwl i alluogi cyrff allanol i ddeall amcanion y cynllun grant. <p>Rhaid i gynlluniau grant gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n nodi'r safonau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn i grant gael ei ddyfarnu.</p> <p>Dylid darparu manylion cyswllt mewnol bob amser.</p>
3.3	Mecanweithiau ymgeisio	<p>Gellir defnyddio ystod o fecanweithiau i gipio'r wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad cyllido (e.e. Cynlluniau busnes/gweithredu, cynigion grant ayb). Ffurflenni cais yw'r prif fecanweithiau a ddefnyddir i'r diben hwn.</p> <p>Mae'n arfer da datblygu meini prawf gwerthuso cyn datblygu ffurflen gais gan fod y dilyniant hwn yn helpu i sicrhau y caiff yr holl wybodaeth angenrheidiol ei chipio i ddibenion asesu.</p> <p>Rhaid cael gwybodaeth ddigonol i alluogi gwneud asesiadau o hyfywedd ariannol a gweithredol yr ymgeisydd a'r gweithgareddau y mae'n ceisio grant ar eu cyfer.</p> <p>Gallai'r wybodaeth a geisir fod ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ cymhwysedd ar gyfer cyllid (e.e. mathau o gyrrff allanol, gweithgareddau, gwariant, lleoliadau ayb) ▪ cydymffurfio â meini prawf y grant (e.e. hyrwyddo themâu trawsbynciol) ▪ nodau, amcanion a deilliannau'r gweithgaredd arfaethedig ▪ perthnasedd cynigion i amcanion polisi a chynllun grant ▪ costau a gwybodaeth ariannol ▪ tystiolaeth o angen am y gweithgaredd arfaethedig a'r cyllid ▪ effaith peidio â darparu grant ▪ yr angen am daliadau ymlaen llaw ▪ hyfywedd ariannol a gallu'r corff allanol i gyflawni'r gweithgareddau arfaethedig yn llwyddiannus ▪ sut y cyflawnir gwerth am arian ▪ unrhyw risgiau cysylltiedig â'r cynnig ▪ Cymorth gwladwriaethol ▪ sut y gwneir y mwyaf o lwyddiant y cynnig (e.e. strwythurau a threfniadau rheoli/staffio, trefniadau monitro perfformiad ayb.) ▪ ar gyfer cynnig cydweithredol, sut y mae'r partneriaid yn bwriadu cydweithio ▪ sut y dangosir tystiolaeth o lwyddiant (e.e. i ba raddau y cwrddwyd â dangosyddion canlyniadau). <p>Dylid cael datganiad wedi'i eirio'n briodol, a'i lofnodi gan berson priodol, i gadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn cyfleu'r ffeithiau yn wir ac yn gywir.</p> <p>Gellir gwneud ceisiadau electronig neu ar gopi caled ar yr amod y dilyni'r canllawiau'r Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau (CoE).</p>

3.4	Canllawiau ategol	<p>Rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan ganllawiau ar gyfer eu llenwi er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ hyrwyddo cynlluniau grant teg a hygyrch ▪ helpu cyrff allanol i gynhyrchu ceisiadau ariannol o ansawdd ▪ sicrhau y ceir yr holl wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen i gynnal gwerthusiadau cadarn <p>Dylai canllawiau ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ y math o broses ymgeisio (cystadleuol neu alwad agored) ▪ pwrpas y cynllun grant ▪ meini prawf cymhwysedd ac ariannu ▪ meini prawf gwerthuso ▪ y broses ar gyfer cyflwyno ceisiadau (h.y. Fformat electronig neu gopi caled), a'r wybodaeth/dogfennau ategol i'w darparu ▪ yr amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau a hysbysiadau ynghylch penderfyniadau <p>Dylai canllawiau esbonio gofynion pob rhan o'r cais a, lle bo'n briodol, gynnwys enghreifftiau o'r hyn sy'n ofynnol.</p> <p>Dylai rhannau o gais a chanllawiau ategol gyfateb yn uniongyrchol i gynorthwyo cwblhau gan gyrrff allanol a gwella effeithlonrwydd gwerthuso.</p>
-----	-------------------	---

SAFON PEDWAR - GWERTHUSIADAU, ARGYMHELLION A PHENDERFYNIADAU

Rhaid cynnal gwerthusiadau gan ddefnyddio mecanweithiau priodol i alluogi penderfyniadau cyllido ar sail tystiolaeth sy'n cael eu gwneud yn deg ac yn atebol.

4.1	Cydymffurfio â Safon 1	Rhaid i bob cynllun grant gydymffurfio â Safon Un.
4.2	Seiliedig ar dystiolaeth, teg ac atebol	Rhaid i werthusiadau, argymhellion a phenderfyniadau cyllido gael eu gwneud yn unol â phrosesau a gytunwyd i hyrwyddo penderfyniadau cyllido teg sy'n seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn unig.
4.3	Mecanweithiau gwerthuso	<p>Dylai mecanweithiau gwerthuso adlewyrchu'n agos y wybodaeth a geisiwyd drwy'r cais.</p> <p>Mae'n arfer da datblygu meini prawf gwerthuso cyn datblygu ffurflen gais gan fod y dilyniant hwn yn helpu i sicrhau y caiff yr holl wybodaeth angenrheidiol ei chipio i ddibenion asesu.</p> <p>Bydd mecanweithiau yn benodol i gynllun grant penodol ond mae'n debygol y byddant yn ymdrin â:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ gwiriadau diwydrwydd dyladwy ▪ dulliau i sefydlu a gwrddwyd â meini prawf gwerthuso ac i ba raddau / safon ▪ pa bryd i geisio cyngor arbenigol (e.e. ariannol, technegol) ▪ asesiadau risg ▪ dulliau i flaenoriaethu cynigion lle bo angen ▪ trefniadau o ran argymhelliad/penderfyniad ▪ trefniadau cymedroli <p>Dylai prosesau fod yn eu lle i alluogi staff i ymdrin â cheisiadau anghymwys/anghyflawn/annigonol yn brydlon</p>
4.3.1	Diwydrwydd dyladwy	<p>Rhaid ymgymryd â diwydrwydd dyladwy yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd i sicrhau y dyfernir grant i gyrrff sy'n ariannol hyfyw sy'n gallu cyflawni gweithgareddau grant llwyddiannus, ac i ddibenion rhannu gwybodaeth gorfforaethol.</p> <p>Nid oes angen adolygiadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid gwirio/ychwanegu gwybodaeth at yr "Hwb Diwydrwydd Dyladwy" ar gyfer y cyrff hyn lle bo'n briodol.</p>
4.3.2	Meini prawf gwerthuso	<p>Dylid datblygu meini prawf gwerthuso safonol a'u nodi mewn templed neu rywbeth tebyg.</p> <p>Dyma rai meini prawf allweddol o ran gwerthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ cymhwysedd ar gyfer cyllido ▪ cydymffurfiaeth â meini prawf cynllun grant ▪ y tebygolrwydd y cwrddir â nodau, amcanion a chanlyniadau (e.e. a yw allbynnau yn SMART?) ▪ perthnasedd cynigion i amcanion polisi/grant ▪ pa mor rhesymol yw costau a gwybodaeth am y gyllideb ▪ pa mor gadarn yw'r dystiolaeth o angen am y gweithgaredd arfaethedig a'r cyllid ▪ tystiolaeth o'r angen am daliadau ymlaen llaw ▪ canlyniadau gwiriadau diwydrwydd dyladwy ▪ risgiau'r cynigion ac effeithlonrwydd mesurau lliniarol y corff allanol ▪ mynegeion gwerth am arian ▪ gofynion cymorth gwladol ▪ effeithlonrwydd y mesurau i hyrwyddo cyflawni llwyddiannus ▪ ansawdd y mesurau i ddangos tystiolaeth o lwyddiant ▪ ansawdd y cynnig yn ei gyfanrwydd <p>Bydd yn bwysig i rai cynlluniau grant gael meini prawf gwerthuso cysylltiedig â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ asesiadau arloesedd a/neu dechnegol a masnachol ▪ ychwanegedd gan gynnwys canlyniadau peidio â derbyn cyllid, a phosibilrwydd dadleoli ▪ gweithio ar y cyd ▪ lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid
4.3.3	Dulliau ar gyfer asesu a blaenoriaethu	Dylid nodi mewn cyfarwyddiadau desg y dulliau ar gyfer asesu a yw meini prawf gwerthuso wedi'u cyflawni i safon dderbyniol. Bydd dulliau'n amrywio ond maent yn debygol o gynnwys:

	<i>cynigion cyllido</i>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ rhestr o gwestiynau, cysylltiedig â meini prawf gwerthuso, i'w hateb a/neu ▪ ar gyfer grantiau cystadleuol, sgoriau neu werthoedd rhifol a aseiniwyd i'r meini prawf a/neu ▪ adroddiad ar ansawdd pob un o'r meini prawf. <p>Cymysgedd o ddulliau sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu'r dull gweithredu mwyaf cadarn.</p> <p>Dylid llunio dulliau ar gyfer blaenoriaethu cynigion cymwys ar gyfer cyllido lle bo angen (e.e. y grant a ddyfernir i'r ceisiadau sy'n sgorio uchaf).</p>
4.3.4	<i>Cymedroli</i>	<p>Dylid cyflwyno trefniadau cymedroli i helpu i sicrhau bod y broses werthuso yn gyson ac yn wrthrychol drwy, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ i un swyddog werthuso cais gydag ail swyddog o'r un tîm yn ei adolygu i bennu cysondeb, neu fel arall, yr asesiadau ▪ argymhellion gan wahanol swyddogion yn cael eu hadolygu gan un uwch swyddog ▪ paneli cymedroli i adolygu argymhellion.
4.4	<i>Argymhellion</i>	<p>Rhaid i argymhellion fod yn seiliedig ar ganlyniad gwerthusiad. Rhaid iddynt fod yn argymhellion ysgrifenedig gan y swyddog gwerthuso wedi'u cofnodi ar iShare. Dylai argymhellion roi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ golwg gyffredinol ar ganlyniad y gwerthusiad (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau diwydrwydd dyladwy) ▪ manylion unrhyw faterion, pryderon neu risgiau a mesurau lliniaru posibl ▪ cyngor ynghylch a ddylid dyfarnu grant, ac os felly, faint, a'r rhesymau dros hyn, a'r rhesymau dros wrthod cynigion. ▪ manylion amodau ychwanegol i'w cynnwys yn y cytundeb cyllido.
4.5	<i>Penderfyniadau</i>	<p>Gall penderfyniadau gael eu gwneud gan swyddogion ag awdurdod dirprwyedig neu'r Gweinidog perthnasol.</p> <p>Ni ddylai swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau fod wedi bod yn gysylltiedig â'r gwerthusiad. Rhaid iddynt seilio'u penderfyniad ar asesiad o'r argymhelliad a'r dogfennau ategol (e.e. y gwerthusiad, adolygiad diwydrwydd dyladwy ayb.)</p> <p>Rhaid i uwch swyddog adolygu'r argymhelliad cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog perthnasol am benderfyniad.</p> <p>Rhaid dogfennu a chofnodi penderfyniadau.</p> <p>Dylid defnyddio proses safonol i hysbysu cyrff allanol, yn brydlon, ynghylch cynigion aflwyddiannus a'r rhesymau dros eu gwrthod.</p>

SAFON PUMP - DYFARNU GRANTIAU

Rhaid i gynlluniau grant fod yn seiliedig ar gytundebau cyllido addas sy'n gyfreithiol gadarn, yn gyfredol ac a gyflwynir yn amserol.

5.1	Cydymffurfio â Safon 1	Rhaid i bob cynllun grant gydymffurfio â Safon Un.
5.2	Addas, cyfreithiol gadarn, cyfredol ac amserol	<p>Rhaid i bob cynllun grant gael ei gefnogi gan gytundeb cyllido addas yn nodi amodau'r grant a rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r corff sy'n derbyn y grant.</p> <p>Rhaid i gytundebau cyllido fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ rhwng Llywodraeth Cymru ac un corff allanol ▪ wedi'u cyhoeddi yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel bo'n briodol ▪ yn gyfreithiol gadarn i sicrhau y gwarchodir buddiannau Llywodraeth Cymru fel gwarcheidwad arian cyhoeddus cyfrifol ▪ yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar y cyd â'r Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau (CoE) i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â modelau Llywodraeth Cymru ▪ yn cael eu cyhoeddi'n brydlon i sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio mewn modd cyfrifol ac i roi'r amser mwyaf posibl i gyrrff allanol gyflawni cynlluniau grant.
5.3	Cytundebau cyllido	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ystod o gytundebau fel sail i ddyfarnu grantiau gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Templed llythyr dyfarnu'r Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau ▪ Llythyrau Cylch Gwaith a Dogfennau Fframwaith ▪ Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ▪ Cytundebau Lefel Gwasanaeth <p>Rhaid dilyn polisi ac ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer ychwanegu at gytundebau cyllido i gyd-fynd â gwahanol gynlluniau grant.</p> <p>Dylid sicrhau cyngor y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau i sicrhau y defnyddir y math cywir o gytundeb.</p>
5.3.1	<i>Dyfarnu / derbyn grant</i>	<p>Dylid datblygu prosesau ar gyfer dyfarnu / derbyn grant i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ diweddaru cywir/prydion ar PayGrants ▪ cyhoeddi cytundebau'n brydlon gyda chyfarwyddiadau ar sut y dylid derbyn y dyfarniad ac erbyn pryd (dylid caniatáu cyfnod rhesymol o amser) ▪ gweithdrefnau ar gyfer pa bryd a sut i ymdrin â methiant corff allanol i gwrdd â gofynion derbyn (dylai methiant i ymateb i lythyrau atgoffa o fewn amserlen ddiwygiedig olygu y caiff y grant ei dynnu'n ôl) ▪ arweiniad ynghylch a ddylid defnyddio cytundebau copi caled ynteu electronig gyda chanllawiau i gyd-fynd â'r naill a'r llall (e.e. ar sicrhau / cofnodi llofnodion ayb.)

SAFON CHWECH - MONITRO, HAWLIADAU A THALIADAU

Rhaid i weithgareddau monitro (gan gynnwys hawliadau a thaliadau) fod yn berthnasol, yn ymatebol a chael eu darparu'n amserol gan ddefnyddio mecanweithiau priodol.

6.1	Cydymffurfio â Safon 1	Rhaid i bob cynllun grant gydymffurfio â Safon Un.
6.2	Perthnasol, ymatebol ac amserol	<p>Dylai gwybodaeth/data monitro fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> berthnasol i asesu cydymffurfiaeth a chynnydd a ddim yn cael ei gasglu fel mater o drefn ymatebol i geisiadau am newid, diffyg cydymffurfio â darpariaethau cytundeb ariannu a pherfformiad gwael, ac amserol i roi sicrwydd fod y grant yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn gyfrifol ac i gyfyngu ar y potensial i beidio â sylwi ar ddiffyg cydymffurfio a pherfformiad gwael a materion yn mynd yn anodd eu rheoli neu'n anhydrin. <p>Dylid monitro gydol bywyd y gweithgaredd sy'n cael ei ariannu.</p> <p>Lle bo'n briodol, dylai monitro barhau y tu hwnt i'r cyfnod cyllido (h.y. Monitro yn dilyn cwblhau).</p>
6.3	Mecanweithiau monitro	<p>Rhaid defnyddio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> gwiriadau diwydrwydd dyladwy tystiolaeth o wir ddefnydd neu amcangyfrif o ddefnydd grant e.e. anfonebau, archebion fel y bo'n briodol adroddiadau cynnydd (i gynnwys, lle bo'n bosibl, gwybodaeth ystadegol neu ddangosyddion cynnydd yn erbyn perfformiad ayb.) <p>Gellir defnyddio'r canlynol fel y bo'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfarfodydd ar safle a/neu yn y swyddfa (rheolaidd/ad hoc) ymweliadau safle (wedi/heb eu cynllunio a chan arbenigwyr priodol fel bo angen) dilysu annibynnol (e.e. ardystio archwiliadau, adroddiadau ymgynghorwyr ayb.) hunan-ardystio gwerthusiad ffurfiol o'r gweithgaredd sydd wedi'i ariannu gan y corff allanol yn dilyn cwblhau <p>Rhaid nodi trefniadau monitro mewn cytundebau cyllido gyda gwybodaeth ynghylch sut yr ymdrinnir â diffyg cydymffurfio (e.e. cadw arian yn ôl, adennill grant a dalwyd ayb).</p>
6.3.1	Diwydrwydd dyladwy	<p>Rhaid ymgymryd â diwydrwydd dyladwy yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd i sicrhau y telir grant i gyrff sy'n ariannol hyfyw sy'n gallu cyflawni gweithgareddau grant llwyddiannus, ac i ddibenion rhannu gwybodaeth gorfforaethol.</p> <p>Nid oes angen adolygiadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid gwirio/ychwanegu gwybodaeth at yr "Hwb Diwydrwydd Dyladwy" ar gyfer y cyrff hyn lle bo'n briodol.</p>
6.4	Hawliadau a thaliadau	<p>Dylai gweithgareddau monitro (e.e. adroddiadau cynnydd y corff a gyllidir) fod yn gysylltiedig â thaliadau grant i hyrwyddo cydymffurfio â darpariaethau'r cytundeb cyllido, i helpu i fynd i'r afael â pherfformiad gwael a/neu i nodi risgiau neu faterion sy'n datblygu.</p> <p>Dylai trefniadau hawlio a thalu gael eu nodi yn y cytundeb cyllido. Dylid dilyn proses safonol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> defnyddio templedi a ffurflenni (y gellir eu cyflwyno'n electronig) i helpu i sicrhau fod hawliadau'n cynnwys y wybodaeth ofynnol a gwybodaeth monitro a gwybodaeth ategol arall i alluogi gwirio cadarn ar gynnydd a chywirdeb data hawliadau cyn rhyddhau'r grant prosesau o ran sut y dylid asesu/dangos dystiolaeth yng nghyswllt hawliadau amserlenni hawlio a thalu cydymffurfio â gofynion dirprwyo Llywodraeth Cymru pa bryd a sut i ychwanegu'r hawliad i PayGrants i ddibenion ardystio/cymeradwyo (rhaid gwahanu dyletswyddau rhwng y person sy'n gwirio'r hawliad a'r un sy'n argymhell y dylid ei dalu, a'r swyddog sy'n cymeradwyo) proses ar gyfer ymdrin â gordaliadau.

6.5	Diffyg cydymffurfio / perfformiad gwael/ risg	<p>Lle bo monitro'n canfod diffyg cydymffurfio â chytundebau cyllido, perfformiad gwael neu risgiau newydd, dylid rhoi mesurau ar waith yn brydlon i fynd i'r afael â hwy. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ cynyddu/newid gweithgareddau monitro ▪ dal grant yn ôl ▪ adennill grant a dalwyd eisoes.
6.6	Ceisiadau am newid	<p>Dylai prosesau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am newid gan gorff sy'n cael ei ariannu (e.e. i weithgareddau a ariennir, mathau o wariant, proffiliau talu) gael eu nodi mewn cyfarwyddiadau desg. Dylent ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ asesu a phenderfynu ar geisiadau am newid ▪ yr amgylchiadau pryd y dylid diwygio ac ail-gyhoeddi'r cytundeb cyllido, gan dynnu'r un gwreiddiol yn ôl yn ffurfiol, neu gyhoeddi llythyr amrywiad swyddogol ▪ sut y dylid sicrhau fod unrhyw newid yn cael ei dderbyn yn ffurfiol ▪ y prosesau mewnol y dylid eu diwygio lle bo'n briodol (e.e. PayGrants) ▪ sut y dylid gwrthod ceisiadau am newid. <p>Dylid gwneud ceisiadau am newid yn electronig a'u storio ar iShare.</p> <p>Dylai mesurau fod yn eu lle i sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â newid o ganlyniad ddiffyg cydymffurfio, perfformiad gwael neu risg gynyddol.</p>

SAFON 7 - GWERTHUSO

Rhaid i werthusiadau o gynlluniau grant fod yn amserol a dylid eu cyflawni gan ddefnyddio mecanweithiau gwerthuso perthnasol.

7.1	Cydymffurfio â Safon 1	Rhaid i bob cynllun grant gydymffurfio â Safon Un.
7.2	Amserol	<p>Dylai gweithgareddau gwerthuso fod yn amserol.</p> <p>Oni fo rheoliadau'r UE neu reoliadau eraill yn nodi i'r gwrthwyneb, dylai cynlluniau grant gael eu gwerthuso'n ffurfiol bob 3 - 5 mlynedd. Dylid cynnal gwerthusiadau ar derfyn y cyfnod cyllido ar gyfer cynlluniau sy'n parhau am lai na 3 blynedd.</p> <p>Yn aml caiff gweithgareddau grant unigol eu gwerthuso ar derfyn y cyfnod cyllido.</p>
7.3	Mecanweithiau gwerthuso	<p>Gwerthuso grant yw'r broses o adolygu a yw cynllun grant (neu mewn rhai achosion gweithgareddau grant unigol) yn addas i'r pwrpas ac yn cyflawni (neu wedi cyflawni) allbynnau neu ganlyniadau arfaethedig.</p> <p>Gall swyddogion grantiau gynnal gwerthusiadau. Fodd bynnag, gall dulliau mwy gwrthrychol a chadarn, yn enwedig o ran gwerthuso cynlluniau, gael eu cyflawni gan ddefnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ secondeion ▪ timau archwilio mewnol ▪ sefydliadau/ymgynghorwyr allanol wedi eu caffael. <p>Dylai maint, gwerth a phwysigrwydd y cynllun neu weithgaredd fod o gymorth o ran pa ddull gweithredu sydd fwyaf priodol.</p> <p>Dylid defnyddio ystod o ddulliau e.e. archwiliad o:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ adroddiadau (e.e. adroddiadau cynnydd allanol, adroddiadau archwilio, arbenigwyr technegol ac arbenigwyr eraill) ▪ Data perthnasol (e.e. adroddiadau ystadegol, gwybodaeth am berfformiad/canlyniadau) ▪ costau ac arbedion ▪ mewnbwn staff/defnyddwyr/rhanddeiliaid eraill.
7.4.	Cymhwyso canlyniadau i werthusiadau	<p>Mae'n hanfodol i ganlyniadau gwerthuso gael eu cymhwyso'n briodol e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ i gynlluniau grant lle maent i barhau ▪ drwy ledaenu gwybodaeth e.e. rhannu arfer da gyda phersonél mewnol/allanol perthnasol drwy adroddiadau canlyniadau, gwefannau/digwyddiadau arfer da, mewn grwpiau perthnasol ayb.
7.5	Cau cynlluniau	<p>Rhaid i gynlluniau gael eu cau lle bo gwerthusiadau (neu ffactorau eraill) yn cefnogi hyn drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ddarparu rhybudd ysgrifenedig o'r cau, y rhesymau drosto a dyddiadau 'gweithredol o' . (Rhaid rhoi rhybudd priodol e.e. yn achos sefydliadau trydydd sector, mae o leiaf 3 mis o rybudd yn ofynnol). ▪ cau/archifo cynlluniau ar PayGrants.